

Y Digartref

Darllen: Mathew 8:18–20

Ar un olwg, mae fel petai'r adran hon ddim yn perthyn i weddill y bennod, gan mai trin a thrafod gwyrthiau a wna Mathew yng nghorff y bennod. Pam felly gynnwys yr adnodau hyn yng nghanol y bennod? Caiff dau ateb posibl eu cynnig. Yn yr adnod flaenorol, mae Mathew'n dyfynnu o broffwydoliaeth Eseia (53:4), ac yn uniaethu'r gwas dioddefus ag Iesu. Iesu yw'r un nad oedd ganddo le i roi ei ben i lawr. Ar hyd ei oes, roedd yn gofyn am fenthyg pethau; benthyg ebol asyn i farchogaeth i Jerwsalem, benthyg ystafell i swpera am y tro olaf gyda'i ddisgyblion. Ac wrth gwrs, y ddau begwn i'w fywyd - benthyg crud yn y stabl a benthyg bedd yn yr ardd. Efallai i Mathew gynnwys yr adran hon i bwysleisio unigrwydd Iesu a'i gysylltiad â'r Gwas Dioddefus.

Ond tybed oes yna wyrth arall yma? Mae un o'r ysgrifenyddion yn cyfarch Iesu fel 'Athro'. Dyna'r teitl mwyaf anrhydeddus yn cael ei ddefnyddio gan un o'r ysgrifenyddion. Ac mae hwnnw'n mynd ymlaen i ddweud, 'Canlynaf di lle bynnag yr ei' (Mathew 8:19). Gwyrth heb os! Er bod hyn yn llawenydd mawr i Iesu, mae'n mynd ati i rybuddio'r gŵr, 'Y mae gan y llwynogod ffeuai, a chan adar yr awyr nythod, ond gan Fab y Dyn nid oes lle i roi ei ben i lawr' (20). Mae'n dweud wrtho ystyried o ddifrif. Cyn dod i unrhyw benderfyniad mae angen iddo feddwl ac ystyried yn ofalus. Mae'n rhaid iddo gyfri'r gost. Ai munud o emosiwn oedd hon i'r ysgrifennydd, ac yntau yng ngwefr y funud yn colli'i ben yn llwyr? Roedd Iesu'n chwilio am ddilynwyr oedd yn barod i gyfri'r gost, yn barod i wynebu'r peryglon a'r anawsterau. Soniodd am godi'r groes, 'Os daw rhywun ataf fi heb gasáu ei dad ei hun, a'i fam a'i wraig a'i blant a'i frodyr a'i chwiorydd, a hyd yn oed ei fywyd ei hun, ni all fod yn ddisgybl imi' (Luc 14:26). Roedd yr hyn a ddywedodd wrth y dyn ifanc cyfoethog yn ddigon i'w dristau, 'Os mynni fod yn berffaith, dos, gwerth dy eiddo a dyro i'r tlodion, a chei drysor yn y nefoedd; a thyrd, canlyn fi' (Mathew

19:21). Ei neges yw, cyn gwneud penderfyniad gwnewch yn siŵr eich bod yn ei garu.

Mae rhywun arall yn awyddus i'w ddilyn (Mathew 8:21). Ond meddai hwnnw, 'Caniatâ imi yn gyntaf fynd a chladdu fy nhad'. Ar yr olwg gyntaf, mae ateb Iesu'n gwbl ddi-gyfaddawd ac anodd. I'r Iddew, roedd claddu rhiant yn weithred o bwys, fel y gwelwn yn hanes Joseff yn mynd i ofyn caniatâd Pharo i gladdu ei dad Jacob. Mae rhai esbonwyr o'r farn mai'r hyn sydd mewn golwg yma yw bod yr hwn sy'n awyddus i ddilyn Iesu yn dweud, 'Ryw ddydd, pan fydd fy nhad wedi marw, yna byddaf yn rhydd i'th ddilyn'. Ond mae Iesu'n adnabod y galon, a'r hyn a ddywed wrtho yw, 'os nad wyt ti'n barod i'm dilyn heddiw yna paid â phoeni, mae'n bur debyg na fyddi byth yn fy nilyn'.

Mor aml rydyn ni'n amharod i weithredu a tharo'r hoelen ar ei phen. O dro i dro, cawn ein hannog i wneud penderfyniad, i geisio concro elfen o'n personoliaeth sy'n rhwystr i ni, i fynd i ddweud gair wrth rywun, neu fynd i weld rhywun sy'n wael. Ond yn gyson, byddwn yn gohirio a chwilio am esgus. Ydi hyn yn wir?

Myfyrdod pellach:

Pa mor anodd ydi Gair Duw gan ei fod yn golygu ymroddiad llwyr?

Ydi Duw eisiau i ni gefnu ar ein teulu a'n ffrindiau? Sut mae dehongli hyn?